

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
11 Ionawr 2022 arlein, trwy zoom am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
11 January 2022, online through Zoom at 8.00pm

Cydymdeimlwyd a chynghorwyr a fu wedi colli aelodau o'i teuluoedd yn ddiweddar a chynhaliwyd munud o dawelwch i gofio am y diweddar Cynghorydd John Evans.

Cadeirydd i ddrafftio llythyr o gydymdeimlad i anfon i teulu Deriodyn a theimlau'r cyfarfod y ddylsai gwneud rhywbeth i gofio am John Evans. Gofynnir i'r Clerc gysylltu a theulu Deriodyn i drafod syniadau.

Presennol/Present

Cyng Daniel Thomas (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Eirian Jones, Rhian Turner, Emyr Jones, Myrddin James, Gerwyn Ebenezer, Dafydd Morse a Cyng/Cllr Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Beryl Evans, Gwenfair Owen a PCSO John Evans.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Ni dderbyniwyd adroddiad o'r heddlu.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Tachwedd yn gywir ar gynnig Cyng Myrddin James ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Gwaith oddi amgylch y goeden Ywen wedi'u gwblhau, Cadeirydd wedi asesu'r gwaith a chytuno ei fod wedi'u gwblhau i safon foddhaol. Clerc i hawlio'r grant.
- Cyng Rhodri Evans a Cyng Gwilym Evans i gwrdd ym Mhenuwch i asesu'r manion sydd eisiau sylw yn y gymuned.
- Sweeper wedi bod yn Llwynpiod yn ddiweddar.

Llyn Fanod

Trafodwyd y Llyn yn fanwl a chytunwyd bod angen symud mor fuan a phosibl i ddatrys y sefyllfa presennol a bod angen i'r Cadeirydd gysylltu ar frys a Chris Bates yn gyntaf a chyflogu Edward Harris i ddilyn.

Cyfrifon/Accounts

- Zoom £14.39 (24.11.21) & £14.39 (24.12.2021) = £28.78
- Cyflog y Clerc £111.67 (Tachwedd) & £111.67 (Rhagfyr) = £223.34
- Dwr Cymru

Angen i Cyng Gwilym Evans alw efo'r Clerc pan yn yr ardal i arwyddo sieciau yn ôl yr angen.

Cytunwyd i dalu'r uchod ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans.

Praesept 2022-23 Precept

Trafodwyd y Praesept yn fanwl gan fod costau ychwanegol yn mynd i fod yn dod ymlaen eleni e.e. Eisteddfod 2022 yn Nhregaron, costau cyfreithiol ar waith papur Llyn Fanod, angen gwaith ar wal y goeden Ywen, posibilrwydd o flodau oddi amgylch y gymuned, ond cytunwyd i gadw'r praesept ar £5,500 am 2022-23.

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w drafod.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Ymgeisydd: N Evans

Safle: Lletty'r Gog, Llangeitho, Tregaron, SY25 6SY

Y Bwriad: A one planet development with additional track way. An erection of a low impact zero carbon 3 bedroom house. An erection of a wooden workshop for apple juice making and herbal products. An erection of 2 poly tunnels, wildlife pond.

Ni chefnogwyd y cais yma gan fod y ffordd lawr i'r safle yn wael iawn, mynediad gweledd gwael i ddod allan i'r ffordd fawr, daear ddim yn addas i dyfu llysiau/ffrwythau, daear gwlyb iawn, dim ty yno i'r preswylwyr fyw ynddo i redeg fath fusnes.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Soniwyd bod yna nifer o grantiau wedi agor yn ddiweddar, cysylltu a Cyng Rhodri Evans os angen mwy o wybodaeth.
- Gwerthfawrogyd presenoldeb a chyfraniad Cyng Rhodri Evans yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned.
- Soniwyd bod hi'n warthus meddwl bod treth y Cyngor yn mynd i godi o leiaf 4%, cyflogau'r uwch reolwyr yn codi hyd at 15%, staff cyffredin y Cyngor mor isel a 1.5%, biniau ddim yn cael ei casglu yn reolaidd bellach.
- Angen presenoldeb y sweeper lan rhiw Bronaeron a lawr oddi amgylch Parcrhydderch draw am Betws Leucu.
- Angen presenoldeb y sweeper lan rhiw Sisyllt a'r ffordd gefn am Penuwch heibio Cefn, Penforial ac yn y blaen.
- Angen llenwi nifer o dyllau yn y ffordd heibio Parcrhydderch am Bews Leucu.
- Gofynnir i'r Cynghorwyr i feddwl am syniadau ar gyfer ein pentrefi ar gyfer y cyfarfod nesaf, e.e. plannu blodau, arwyddion baw cŵn ac yn y blaen.
- Darlennodd y Cadeirydd, llythyr o ymddeoliad a oedd wedi derbyn oddi wrth y Clerc, derbyniwyd y llythyr a diolchwyd iddi yn bersonol gan bawb yn y cyfarfod a chytunwyd i ddechrau'r broses o hysbysebu am swydd Clerc yn y dyfodol agos. Cyng Rhodri Evans i ofyn caniatad Cyngor Cymuned Llanddewi am fanylion disgrifiad swydd y Clerc yn Llanddewi er mwyn addasu, angen hysbysebu ar hysbysfyrddau yn y dair ward, Siop Llangeitho, Barcud, Cylchlythyr Michael Tordoff, gwefannau a facebook perthnasol.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar nos Lun 7fed o Chwefror 2022 am 8 o'r gloch trwy Zoom.